

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**OFFERYNNAU STATUDOL****2002 Rhif (Cy.)****PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU****CADWRAETH PYSGOD MÔR****Gorchymyn Crancod Bwytnadwy Rhy Fach (Cymru) 2002****NODYN ESBONIADOL***(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhagnodi meintiau lleiaf ar gyfer glanio crancod bwytnadwy (*Cancer pagurus*) yng Nghymru (erthygl 3(1)). Ceir esemtiau mewn perthynas â'r maint lleiaf ar gyfer glanio crancod bwytnadwy o gychod pysgota tramor (erthygl 3(2)). Mae cymeryd mesurau ar gyfer cadw a rheoli stociau o dan Erthygl 46 o Reoliad y Cyngor 850/98 yn ddarostyngedig i amod fod y mesurau yn gymwys i bysgotwyr yr Aelod-wladwriaeth berthnasol yn unig.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn gwahardd cychod pysgota Prydeinig perthnasol neu gychod pysgota Albanaidd rhag glanio crancod bwytnadwy nad ydynt wedi cyrraedd maint o 130mm yng Ngogledd Cymru a 140mm yn Ne Cymru (erthygl 4).

Mae'r Gorchymyn hefyd yn rhoi pwerau gorfodi pellach i swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig mewn perthynas â chychod pysgota Prydeinig (erthygl 5).

Rhagnodir tramgwyddau a chosbau yn eu tro gan adrannau 1(7) ac (8) a 6(5), ac adran 11 o Ddeddf Psgod Môr (Cadwraeth) 1967, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981 a Deddf Cyflawnder Troseddol 1991.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu Gorchymyn Crancod Rhy Fach 1986 a Gorchymyn Crancod Rhy Fach (Amrywio) 1989, i'r graddau y maent yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

Mae'r Gorchymyn hwn yn cael ei wneud gan ddibynnu ar Erthygl 46.1 o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 850/98 (OJ Rhif L125, 27.4.1998, t.1), sy'n awdurdodi Aelod-wladwriaethau i gymryd rhai mesurau cenedlaethol penodol ar gyfer cadwraeth a rheoli stociau.

Paratowyd Asesiad Effaith Rheoliadol ar sail y DU gyfan. Gellir cael copiau o'r Is-adran Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd.

OFFERYNNAU STATUDOL

2002 Rhif (Cy.)

PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

CADWRAETH PYSGOD MÔR

Gorchymyn Crancod Bwytedwy Rhy Fach (Cymru) 2002

Wedi'i wneud 2002

Yn dod i rym 2002

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 1(1), (4) a (6), 6(1) a (3), 15(3) a 20(1) o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967() a phob pwer arall sy'n ei alluogi yn hynny o beth, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Teitl, cychwyn a chymhwysedd

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Crancod Bwytedwy Rhy Fach (Cymru) 2002; daw i rym ar [] 2002 ac mae'n gymwys i Gymru.

Dehongli

2. — Yn y Gorchymyn hwn-

ystyr "cranc bwytadwy" ("edible crab") yw cranc o'r rhywogaeth *Cancer pagurus*;

ystyr "y Ddeddf" ("the Act") yw Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967;

ystyr "maint" ("size"), mewn perthynas â chranc bwytadwy, yw uchafswm lled y carpace wedi'i fesur yn berpendicwlar i linell ganol antero-posterior y carapace gan ei fesur fel y dangosir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

1. At ddibenion y Gorchymyn hwn mae i "Gymru" ("Wales") yr un ystyr ag sydd iddo yn adran 155(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998().
2. Ystyr y term "unrhyw Orchymyn cyfatebol" ("any equivalent order") yw unrhyw orchymyn arall a wnaed o dan y Ddeddf, sy'n gymwys i unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig, sy'n gwahardd glanio mewn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig grancod bwytadwy nad ydynt wedi cyrraedd maint o 130 milimedr (neu'r maint a nodir yn y Gorchymyn hwnnw) ac sydd wedi cael eu dal mewn dyfroedd sydd o fewn terfynau pysgodfeydd Prydeinig.

Y maint rhagnodedig lleiaf ar gyfer crancod bwytadwy

3. At ddibenion adran 1(1) o'r Ddeddf (sy'n gwahardd glanio unrhyw bysgod môr yng Nghymru a Lloegr o unrhyw ddisgrifiad, sef pysgod yn sy'n llai o ran maint nag unrhyw faint y gellir ei ragnodi mewn perthynas â physgod môr o'r disgrifiad hwnnw), rhagnodir drwy hyn fel y maint lleiaf ar gyfer crancod bwytadwy o bob rhyw, mewn perthynas â phob ardal a nodwyd yng ngholofn 1 o Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, y maint priodol a nodwyd ar gyfer yr ardal honno yng ngholofn 2 o Atodlen 2.

Gwaharddiad ar lanio crancod bwytadwy

— Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), gwaherddir glanio yng Nghymru grancod bwytadwy-

- a. nad ydynt wedi cyrraedd maint o 130 milimedr; a
 - b. sydd wedi cael eu dal mewn dyfroedd o fewn terfynau pysgodfeydd Prydeinig.
0. Dim ond ar gyfer glanio o gwch pysgota Prydeinig perthnasol neu gwch pysgota Albanaidd perthnasol y mae'r gwaharddiad ym mharagraff (1) yn berthnasol.
 1. Ni fydd yr erthygl hon yn effeithio ar gymhwysedd erthygl 3 o Orchymyn Pysgodfeydd Môr (Gorfodi Mesurau Cadwraeth y Gymuned) (Cymru) 2000().

Pwerau swyddogion pysgodfeydd môr

Prydeinig mewn perthynas â chychod pysgota

- At ddibenion gorfodi adrannau 1(1) a 6 o'r Ddeddf fel y caiff ei darllen gyda'r Gorchymyn hwn neu unrhyw orchymyn cyfatebol, gall swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig arfer y pwerau a roddwyd gan baragraffau (2) i (4) isod mewn perthynas ag unrhyw gwch pysgota Prydeinig perthnasol neu unrhyw gwch pysgota Albanaidd yng Nghymru.
2. Gall y swyddog fynd ar fwrdd y cwch, gyda neu heb y personau a neilltuwyd i gynorthwyo'r swyddog hwnnw yn ei ddyletswyddau, ac at y diben hwnnw gall fynnu bod y cwch yn stopio a gwneud unrhyw beth arall a fyddai'n hwyluso mynd ar fwrdd y cwch.
 3. Gall y swyddog fynnu presenoldeb meistr a phersonau eraill sydd ar fwrdd y cwch a gall wneud unrhyw archwiliad neu gynnal unrhyw ymchwiliad sy'n ymddangos yn angenrheidiol ym marn y swyddog ar gyfer y diben a nodwyd ym mharagraff (1) uchod ac, yn benodol-
 - a. gall archwilio unrhyw bysgod ar y cwch a chyfarpar y cwch gan gynnwys yr offer pysgota, a mynnu bod y personau ar fwrdd y cwch yn gwneud unrhyw beth sy'n ymddangos iddo eu bod yn rhesymol angenrheidiol i hwyluso'r archwiliad;
 - b. gall fynnu bod unrhyw berson ar fwrdd y cwch yn dangos unrhyw ddogfen sy'n gysylltiedig â'r cwch, ei weithrediadau pysgota neu weithrediadau ategol i hynny neu i'r personau ar ei fwrdd sydd yn ei warchodaeth neu'i feddiant a gall gymryd copïau o unrhyw ddogfennau o'r fath;
 - c. at ddibenion canfod p'un ai yw meistr, perchennog neu siartrwyr y cwch wedi cyflawni tramgwydd o dan adrannau 1(1) a 6 o'r Ddeddf() fel y caiff ei darllen gyda'r Gorchymyn hwn neu unrhyw orchymyn cyfatebol, gall chwilio'r cwch am unrhyw ddogfen o'r fath a gall fynnu bod unrhyw berson ar fwrdd y cwch yn gwneud unrhyw beth y mae'n ymddangos iddo ef sy'n angenrheidiol i hwyluso'r chwilio; ac
 - (ch) pan fo'r cwch yn gwch y mae gan swyddog reswm i amau bod tramgwydd o'r fath wedi'i chyflawni mewn perthynas ag ef, gall ddal a chadw unrhyw ddogfen o'r fath sy'n cael ei chyflwyno iddo neu y mae'n ei darganfod ar fwrdd y cwch at y diben o alluogi defnyddio'r ddogfen fel dystiolaeth mewn achosion ar gyfer y tramgwydd, ond ni fydd dim yn is-baragraff (ch) uchod yn caniatáu dal neu gadw unrhyw ddogfen y mae'n ofynnol o dan y gyfraith ei chadw ar y cwch heblaw pan fo'r cwch yn cael ei gadw mewn porthladd.
 4. Pan ei bod yn ymddangos i swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig bod y Gorchymyn hwn, neu unrhyw orchymyn cyfatebol wedi cael ei dorri ar unrhyw adeg o fewn terfynau pysgodfeydd Prydeinig gall y swyddog -

- a. fynnu bod meistr y cwch y gwnaed y drosedd mewn perthynas ag ef yn mynd, neu gall y swyddog fynd â'r cwch a'i griw i'r porthladd sy'n ymddangos iddo y porthladd cyfleus agosaf, a
- b. cadw neu fynnu bod y meistr yn cadw'r cwch yn y porthladd;

a phan fo swyddog o'r fath yn cadw neu'n mynnu bod cwch yn cael ei gadw bydd ef neu hi yn cyflwyno rhybudd ysgrifenedig i'r meistr yn datgan y bydd y cwch neu fod raid i'r cwch gael ei gadw hyd nes y bydd yr hysbysiad yn cael ei dynnu'n ôl drwy gyflwyno i'r meistr hysbysiad ysgrifenedig pellach wedi'i lofnodi gan swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig.

Diddymu

4. Diddymir drwy hyn Orchymyn Crancod Rhy Fach 1986() a Gorchymyn Crancod Rhy Fach (Amrywio) 1989() i'r graddau y mae ganddynt effaith mewn perthynas â Chymru.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998()

Dyddiad

Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Erthygl 2(1)

ATODLEN 1

MESUR MAINT CRANC BWYTADWY

Erthygl 3

(1)

ATODLEN 2

MAINT GLANIO LLEIAF

Colofn 1	Colofn 2
Ardal	Meintiau glanio lleiaf rhagnodedig
Arfordir Cymru o'i ffin yn y gogledd-ddwyrain â Lloegr i'r de hyd at Drwyn Cemaes.	Crancod bwytagwy gwryw: 130 mm Crancod bwytagwy benyw: 130 mm

Arfordir Cymru o'i fin yn y de-ddwyrain â Lloegr i'r gogledd hyd at Drwyn Cemaes.

Crancod bwytagwy gwryw: 140 mm

Crancod bwytagwy benyw: 140 mm

ANNEX 1

REGULATORY APPRAISAL

1. THE UNDERSIZED EDIBLE CRABS (WALES) ORDER 2002.

Purpose and intended effect of the proposals

2. The new EU technical conservation regulation (Council Regulation (EC) No 850/98) came into force on 1 January 2002. A number of improvements to this EU Regulation and to the existing UK legislation have been recommended by the Fisheries Conservation Group; a group consisting of fishermen's organisations, scientists and the UK Fisheries Departments, set up by Ministers in 1995 in order to examine ideas for improved technical conservation measures proposed by the industry itself and others. These proposed improvements included an increase in the Minimum Landing Sizes for edible crabs above those otherwise applying at EU level. There was widespread support for these measures.

Risk Assessment

3. In 1997 there were about 18,000 commercial fishermen in the UK of which about a third were engaged in commercial fishing for shellfish (it is difficult to be more precise as fishermen tend to target different species at different times of the year). Shellfish landings have been on an upward trend since 1993, in 1997 accounting for 16% by weight and 27% by value of total landings by the UK fleet; the two species accounting for the majority of landings are crabs (17%) and nephrops (22%). Fishing for nephrops has not been considered by the Fisheries Conservation Group as part of this review as, unlike other shellfish species, it is already subject to TACs and other management controls at EU level. Other shellfish species tend to be subject only to minimum landing sizes.

4. All the recommendations proposed by the Fisheries Conservation Group would have some impact on the shellfish sector of the UK fishing industry. Increases in the MLSs for the species will reduce the availability of edible crabs in the short term, which could reduce the income of some fishermen for a period, if the market does not correct the price to reflect reduced supplies. It is however, expected that stock sizes and landings in the medium and longer-term would increase. It is not though possible to calculate realistic market values for these costs and benefits.

5. Delaying the introduction of the measure is likely to mean that stocks will be further depleted and their sustainability threatened.

Benefits

6. The measure should better protect the spawning stock resulting in an increase in the numbers of edible crabs entering the fishery in future years and a corresponding increase in catches.

Compliance costs for business

7. There will be some cost to industry in terms of reduced catches. These costs should however be offset in the longer term as shellfish stocks improve. However, discussion of the measure in the Fisheries Conservation Group, indicated that the costs were likely to be minimal and acceptable.

Impact on small businesses

8. The majority of those affected by the proposed measure would be small- scale operators and the proportion of their income from shellfish fishing could be reduced in the short term. In the longer term these changes should result in gains from increases in the shellfish stocks. It is difficult to estimate to what extent fishermen's livelihoods would be affected, but our understanding is that few, if any, would be undermined by the proposed change. Indeed, some responses to the consultation indicated that the effects would not be significant. No responses indicated that a disabling cost was being proposed. Reduced supplies on the market might, in fact, tend to increase first hand prices. The Shellfish Association of Great Britain has commented to us that none of their members who purchase or trade in shellfish have indicated the likelihood of any financial problems because of the measures.

Other costs

9. The proposal would not give rise to further costs to Government. The Assembly's contribution to the enforcement of the proposed measures would be achieved within the existing administration costs budgets.

Results of consultation

10. A consultation exercise on the recommendation (and others relating to improved conservation for various shellfish species) proposed by the Fisheries Conservation Group was carried out from 21 July to 30 September 1998. A total of 61 replies were received by Fisheries Departments from fishermen, processors, environmental organisations, Sea Fisheries Committees and enforcement authorities. There was widespread support for the increases in the Minimum Landing Sizes. Although specifically requested, none of the respondents provided any detailed guidance on the potential financial consequences of any of the proposals.

Summary and Recommendations

11. On the basis of the analysis presented here and considering the widespread support for the proposal, it is recommended that the prohibition be introduced.

Enforcement, sanctions, monitoring and review

12. Enforcement would be undertaken predominantly by British Sea Fisheries Officers operating under UK statute and in England and Wales only, by officers of the 12 Sea Fisheries Committees. Their experience, monitoring work by CEFAS, MLA at Aberdeen and DARD's Science Service together with anecdotal information from the coast, will all serve to provide information about the efficacy of the measures and the need, if any, for further improvements.

Contact: Carol Lewis, AFPD 2, National Assembly for Wales, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ. Tel. 02920 823553 – Fax 02920 823562 – E. Mail carol.Lewis@wales.gsi.gov.uk

Agriculture & Fisheries Policy Division

July 2002

Declaration:

I have read the Regulatory Impact Assessment and I am satisfied that the balance between cost and benefit is the right one in the circumstances.

Signed by the responsible Minister:.....

Date:.....